PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD LLUN, 19 MEDI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Ian Arundale(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Kelloway, Mitchell, Murphy, Weaver, Walker, Hugh Thomas a/ac Professor Maurice Pendlebury |

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Howells a McGarry.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Bu i Hugh Thomas a'r Cynghorydd Bill Kelloway ddatgan fod ganddynt fudd personol yn eitem agenda 5.6 fel aelodau o Gynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd a'r Fro yn y drefn honno.

22 : COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2016 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Materion Gweithredol

23 : ADRODDIAD BLYNYDDOL AR LYWODRAETHU YSGOLION A DIFFYGION

Derbyniodd y Pwyllgor ei adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes ar lywodraethu yn yr ysgolion. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ar agweddau ar lywodraethu a ffigyrau a barnau mewn perthynas â'r risg corfforaethol fel y maent yn berthnasol i falansau ysgolion.

Croesawodd y Cadeirydd Nick Batchelar a Neil Hardee i'r cyfarfod gan eu gwahodd i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedwyd wrth Aelodau y cynhaliwyd 10 archwiliad ysgol yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/7 – rhoddwyd sgôr foddhaol i 7 ysgol a barnwyd bod 3 ysgol arall â sicrwydd cyfyngedig. O'r 3 archwiliad dilynol, cafodd 2 ysgol sgôr foddhaol a barnwyd bod gan 1 ysgol sicrwydd cyfyngedig. Mae'r ffigyrau hyn yn welliant bychan ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Roedd ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r Dull Rheoli Risg a Hunanasesu Ysgolion' a ddatblygwyd drwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd hunanlywodraeth ac atebolrwydd.

Roedd dadansoddiad o falansau ysgol fel ar 31 Mawrth 2016 a'r pedair blynedd flaenorol wedi'u hatodi wrth yr adroddiad. Dywedwyd wrth Aelodau bod lefel y balansau gwarged a gedwir gan ysgolion wedi cynyddu o £1.287m ar 31 Mawrth 2015 i £2.521 ar 31 Mawrth 2016. Fodd bynnag, roedd 20 o ysgolion yn dwyn ymlaen balans â diffyg (12 ysgol gynradd ac 8 ysgol uwchradd). Mae gan bob ysgol â diffyg Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith yn dangos sut y bydd yn lleihau ei

diffyg ac yn sicrhau sefyllfa gytbwys. Mae pob ysgol hefyd yn cael cymorth gan swyddog ariannol sy’n cydweithio'n glos â'r ysgol a'r corff llywodraethu i fonitro’r Cynllun Ariannol.

Mae’r ysgolion â balansau gwarged sy'n uwch na throthwy Llywodraeth Cymru sef £50,000 ar gyfer ysgolion cynradd a £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd wedi cael gwybod y bydd rhaid iddynt gymryd camau i leihau lefelau’r balansau a pharatoi cynlluniau ar gyfer defnyddio'r arian gwarged. Mae’r swyddog ariannol penodedig yn cydweithio’n glos ag ysgolion i baratoi’r cynlluniau hyn.

Bu i’r Cyfarwyddwr Addysg roi ei farn ar y sefyllfa bresennol o ran archwiliadau ysgolion a Chynllun Gweithredu Estyn ar gyfer Llywodraethu Ysgolion. Roedd y Cyfarwyddwyr yn credu y caiff y gwaith a wneir drwy'r dull Rheoli Risg a Hunanasesu ei atgyfnerthu gan benderfyniad y Swyddog S151 i godi tâl ar ysgolion am unrhyw waith Archwilio Mewnol a nodir o ganlyniad i fethu â dilyn y broses hunanasesu. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ystyried bod gormod o ysgolion yn cael eu nodi yn foddhaol neu waeth ac y byddai'n parhau i arfer pwerau ymyrryd yn yr ysgolion hynny a gaiff eu nodi yn ysgolion sy'n gwneud gwaith rheoli ariannol gwael a llywodraethu gwael.

Roedd y Cyfarwyddwr yn teimlo'n galonogol bod yr awdurdod wedi cael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol pellach Estyn ond bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Dywedwyd wrth Aelodau y bydd ysgolion da gydag arweinyddiaeth a llywodraethu cryf ar flaen y gad o ran arwain ein siwrnai tuag at wella a datblygu eu staff. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r awdurdod yn canolbwyntio ar y 5 nod allweddol a nodwyd yn Caerdydd 2020 (Atodiad B i'r adroddiad) er mwyn cyflymu cyflawniad addysgol yng Nghaerdydd a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i lwyddo.

Roedd y Cyfarwyddwr yn ystyried bod nifer a lefel y balansau â diffyg mewn ysgolion yn parhau yn rhy uchel. Roedd yn croesawu cydymdrechion cydweithwyr yn y Gwasanaethau Ariannol, Addysg a’r Consortiwm Canolbarth y De i lunio a monitro cynlluniau ysgol, ond yn ystyried bod angen i'r risg a nodwyd barhau ar y gofrestr risg corfforaethol.

Gwahoddwyd aelodau i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am esboniad pellach ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelodau nad oedd y sefyllfa mewn perthynas â balansau mewn rhai ysgolion yn gwella. Gofynnwyd i Swyddogion pa mor effeithiol oedd ymyriadau. Dywedodd y Swyddogion bod gan bob ysgol Gynllun Ariannol Tymor Canolig bellach a gaiff ei fonitro gan swyddog cyllid. Mae pob ysgol â diffyg wedi sicrhau cyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn ac ni fu unrhyw gynnydd pellach ran diffygion a gynlluniwyd. Mae targedau i ostwng lefel y diffygion yn y blynyddoedd i ddod hefyd wedi’u cytuno arnynt.

- Dywedodd Aelodau eu bod yn pryderu, mewn rhai achosion, nad oedd llywodraethwyr ysgolion yn ymwybodol o natur wirioneddol y diffyg yn eu hysgolion. Gofynnwyd i Aelodau p’un ai a oedd gwybodaeth am gyllid ysgolion ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd Swyddogion bod rhaid i’r awdurdod gyhoeddi’r data hwn. Dywedwyd wrth Aelodau bod papurau Fforwm Cyllideb Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor. Nodwyd bod angen cyfeirio'r holl lywodraethwyr ysgolion at y

wybodaeth hon a chynnig hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol fel y bo'n briodol. Roedd y Pwyllgor yn ystyried ei bod yn hanfodol bod llywodraethwyr ysgol yn gallu nodi'r prif ffeithiau a phroblemau yn gynnar.

Dywedodd y Cyfarwyddwr pan fo pryderon cyfrifoldeb y Cadeirydd a'r Pennaeth yw rhoi gwybod i Gyrff Llywodraethu. Mae angen i'r awdurdod nodi ei ddisgwyliadau'n glir mewn cysylltiad â hyn.

- Gofynnwyd i Aelodau p'un a oedd gan unrhyw ysgolion ddiffygion y gellid eu 'cyfiawnhau' yn sgîl niferoedd annigonol ar gofrestr yr ysgol. Dywedodd y Swyddog bod nifer y disgyblion wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Mae rhai amrywiadau o hyd rhwng ysgolion yn y gogledd ac yn y de yn y Ddinas. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Caerdydd yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ran y cyllid cyffredinol fesul disgybl a chyfanswm y cyllid a ddirprwyir i ysgolion o ran canran.

- Dywedodd Aelod bod rhai ysgolion yn cael lefel is o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a bod ganddynt lefel trosiant isel. Caiff balansau eu cadw yn yr ysgolion hynny er mwyn rheoli amgylchiadau annisgwyl. Nododd Swyddogion mai barn yr awdurdod oedd y byddai'n fuddiol i bennu'r trothwy ar sail canran benodol o gyllideb gyffredinol yr ysgol unigol er mwyn gwahaniaethu rhwng maint gwahanol ysgolion. Fodd bynnag, mae trothwyon Llywodraeth Cymru sef £50,000 ar gyfer Ysgolion Cynradd a £100,000 ar gyfer Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Arbennig yn y drefn honno yn cael eu monitro gan yr Awdurdod Lleol. Nododd Swyddogion hefyd y bu trafodaeth gyda'r ysgolion hynny sydd â gwarged uchel oherwydd yr angen i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar weithgarwch gwerthfawr.

- Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried cynnal adolygiad o drefniadau'r Panel Llywodraethu Awdurdod Lleol er mwyn cynnal adolygiad pellach ar effaith y trefniadau a adolygwyd ac asesiad o safon y llywodraethwyr a benodwyd. Croesawodd y Cyfarwyddwr yr awgrymiad a dywedodd y byddai'n trafod y cynnig gyda'r Panel.

PENDERFYNWYD – Y byddai'r wybodaeth a'r farn yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

24 : NODYN BRIFFIO ATHRAWON CYFLENWI

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Archwilio, cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gyflogi athrawon cyflenwi mewn ysgolion. Cafodd y Pwyllgor bapur briffio yn nodi canlyniadau'r adolygiad. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys defnyddio athrawon cyflenwi asiantaethau, contractau tymor byr a goruchwylwyr cyflenwi. Trafododd y Pwyllgor ganlyniad yr adolygiad.

Dywedwyd wrth Aelodau, yn 2013, bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac Ysgolion. Mae'r argymhellion hyn wedi'u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A. Gan gyfeirio at argymhelliad 11 – Rhoi data cymharol i ysgolion ar gyfraddau absenoldeb athrawon – ystyriodd Aelodau y byddai'n fuddiol i fod wedi cael data cymharol ar absenoldebau athrawon yn yr adroddiad briffio. Dywedodd Swyddogion bod

argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn argymhellion cyffredinol ar gyfer Cymru gyfan.  Mae ysgolion yng Nghaerdydd yn gallu monitro absenoldebau drwy ddefnyddio system Digigov i lunio adroddiadau.  Nid yw cyfraddau absenoldeb ysgolion unigol yn cael eu cymharu ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, mae hwn yn gam gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.  O fis Medi 2016, cynigir Hyfforddiant i Lywodraethwyr ar fonitro absenoldebau, a fyddai'n cynnwys sut i gael gafael ar ddata monitro absenoldeb.  Dywedodd Swyddogion eu bod eisoes yn gallu cael gafael ar ddata cymharol a'u bod yn barod i rannu'r data dan sylw gyda'r holl ysgolion.

Ystyriodd y Cyfarwyddwyr y byddai'r data cymharol yn cynorthwyo llywodraethwyr ac ysgolion unigol i asesu cyfraddau absenoldeb eu hysgolion.  Cytunodd y Cyfarwyddwr i roi'r data hwn i'r Pwyllgor.

Nododd Aelod, ym mhob ysgol, bod Adroddiad Blynyddol y Pennaeth yn cynnwys gwybodaeth ar lefelau presenoldeb disgyblion.   Mai rhai ysgolion hefyd yn cynnwys gwybodaeth am lefelau presenoldeb y staff.  Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr wneud sylw ar y cynnig y dylai pob ysgol gynnwys manylion am lefelau presenoldeb staff.  Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn y byddai Pennaeth da yn adrodd am absenoldeb staff gan fod hynny'n ategu negeseuon eraill.  Fodd bynnag, penderfyniad y Pennaeth fyddai hynny.  Atgoffwyd Aelodau bod adroddiadau perfformiad chwarterol y gyfarwyddiaeth yn cynnwys gwybodaeth am absenoldebau staff ysgol a staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion.

PENDERFYNWYD – Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Fforwm Cyllideb Ysgolion i'w ystyried.

## 25 : YMATEB I ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL – ADOLYGIAD DILYNOL AR Y GYFLOGRES PRIFFYRDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a baratowyd gan yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer yr Aelodau a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith o weithredu cyfres o argymhellion a wnaed yn dilyn archwiliadau a gynhaliwyd yn 2011 a 2014 yr oedd yr adran archwilio o'r farn eu bod â 'sicrwydd cyfyngedig'.  Dywedwyd wrth Aelodau bod archwiliad dilynol ym mis Mai 2015 wedi nodi y gwnaed rhywfaint o gynnydd ond er mwyn galluogi'r gyfarwyddiaeth sefydlu amrywiol fentrau a newidiadau eraill penderfynwyd gohirio'r farn archwilio.

Cynhaliwyd cyfweliadau â rheolwyr y gyfarwyddiaeth yn ddiweddar i gael y newyddion diweddaraf ar yr argymhellion sydd eto i'w cyflawni.  Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion yr argymhellion hynny ac ymateb y rheolwyr i bob un. Gwahoddwyd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Gary Brown, Rheolwr Gweithredol Asedau, Peirianneg a Gweithrediadau i gyflwyno'r adroddiad.

Gan gyfeirio at Baragraff 2 yr adroddiad, gofynnodd Aelodau am esboniad o ystyr gwirioneddol y term 'y gwnaed rhywfaint o gynnydd'.  Dywedodd Swyddogion y byddai Aelodau yn croesawu tystiolaeth bellach neu ystadegau i ategu'r farn hon yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad pellach ar yr Adolygiad o'r Gyflogress Priffyrdd er mwyn dangos dealltwriaeth fwy pendant fod y materion a godwyd yn flaenorol gan

yr adran archwilio wedi cael sylw.   Mae’n rhaid i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod prosesau ar waith sy'n mynd i'r afael â'u hargymhellion cynharach.

PENDERFYNWYD -

(1) y dylid nodi'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr iddo;

(2) y dylid cyflwyno adroddiad pellach yn cynnwys tystiolaeth bod argymhellion cynharach y Pwyllgor wedi cael sylw yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Cyllid
26 : CYLLID

Rhoddwyd adroddiad i’r Pwyllgor a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar sefyllfa ariannol y Cyngor.  Gofynnwyd i Aelodau nodi bod y cyfnod monitro refeniw 4 mis yn dangos gorwariant amcanol o £850,000 sy’n adlewyrchu’r pwysau a ariannol a diffygion o ran targedau arbedion cyfarwyddiaethau.  Caiff y gorwariant ei osod yn erbyn arbedion amcanol o ran cyllido cyfalaf, rhyddhau cyllidebau wrth gefn ac arian a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer costau diswyddo gwirfoddol, gwarged ar gasgliadau'r Dreth Gyngor ac ad-daliadau Trethi Annomestig mewn perthynas ag eiddo Cyngor.

Ar hyn o bryd amcanir gorwariant o £6.5 mewn cysylltiad â chyllidebau cyfarwyddiaethau.  Rhagwelir y bydd camau gweithredu rheoli yn galluogi’r gwaith o ostwng y ffigwr hwn erbyn diwedd y flwyddyn.  Mae’r sefyllfa bresennol yn cynnwys gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithrediadau’r Ddinas, Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli Corfforaethol.  Caiff gorwariant cyfarwyddiaethau ei wrthbwyso’n rhannol gan y gyllideb wrth gefn gyffredinol.

Nododd y Pwyllgor bod gorwariant amcanol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn £5.221 miliwn.  Roedd Aelodau yn pryderu ynghylch y gorwariant cyson yn y gyfarwyddiaeth hon.  Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod angen gofyn am esboniad ynghylch y gorwariant cyson yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan nad yw'n ymddangos eu bod yn mynd i'r afael ag ef.  Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Cyfarwyddwr gan nodi pryderon y Pwyllgor a’i wahodd i ddod i’r cyfarfod nesaf.

Gan gyfeirio at yr adroddiad Strategaeth y Gyllideb a ystyriwyd gan y Cabinet, nododd y Pwyllgor fod bwlch o £24.3 miliwn yn y gyllideb yn 2017/18 a bwlch o £75.3 miliwn dros y cyfnod hyd at 2019/20.  Mae disgwyl y bydd cyfarwyddiaethau yn arbed £43.035 miliwn dros yr un cyfnod a byddai’r balans yn cael ei osod yn erbyn rhagdybiaethau o ran y strategaeth gan gynnwys cynnydd yn y Dreth Gyngor.  Nododd Aelodau bod rhaid i’r rhagdybiaethau y cyfeiriwyd atynt fod yn gadarn.

PENDERFYNWYD -

(1) y dylid nodi’r adroddiad;

(2) y dylid nodi’r broses sy’n cael ei mabwysiadu mewn perthynas â pharatoi’r gyllideb ar gyfer 2017/18 a’r tymor canolig.

27 : DATGANIAD CYFRIFON 2015/16

Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2015/16 i'r Pwyllgor, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 29 Medi 2016. Dywedodd Swyddogion bod archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru yn symud yn ei flaen a'i bod yn ymddangos bod canlyniadau'r archwiliad yr isaf posibl, ac felly, nid oedd unrhyw broblemau pwysig i'w nodi. Mae gwaith i symleiddio'r Datganiad Cyfrifon yn mynd rhagddo.

Gofynnodd Aelodau am esboniad o ran enwi unigolion sy'n ennill mwy na £170,000 y flwyddyn. Dywedodd Swyddogion bod swyddog di-enw wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon oherwydd bod taliadau diswyddo yn rhan o'r ffigwr enillion blynyddol a restrir.

Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchodd y Cadeirydd y Swyddogion am baratoi'r Datganiad Cyfrifol gan ddiolch iddynt am eu gwaith ac ymdrechion.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi Datganiad Cyfrifon 2015/16.

28 : AGWEDDAU AR LYWODRAETHU CRONFA BENSIWN CYMRU GYFAN

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiad Cronfa Fuddsoddi Cymru Gyfan i reoli asedau buddsoddi wyth cronfa (CPLlL) yng Nghymru a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y Gronfa. Gwahoddodd y Cadeirydd Gareth Henson, Rheolwr Pensiynau, i gyflwyno'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi cefndir y mater dan sylw. Dywedwyd wrth Aelodau bod 8 CPLlL yng Nghymru yn cydweithio i nodi meysydd cydweithio posibl. Yn 2013 nodwyd yn yr adroddiad 'Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru: Gweithio gyda'n Gilydd' bod buddsoddiadau yn faes lle gallai cydweithio arwain at sicrhau cynilion sylweddol. Comisiynwyd Mercers Ltd i nodi opsiynau o ran buddsoddi ar y cyd ac ym mis Mai 2015 cyhoeddwyd adroddiad yn cymeradwyo Cyfrwng Buddsoddi Cyffredin (CBC). Cytunodd yr 8 CPLlL i fwrw ymlaen â sefydlu CBC ar sail wirfoddol ac ym mis Rhagfyr 2015 penodwyd Hymans Robertson i gynnig cyngor ar y gwaith o gaffael CBC gan ddarparwr trydydd parti.

Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod rhaid i gronfeydd CPLlL yng Nghymru a Lloegr ddod ynghyd i ffurfio cronfeydd buddsoddi. Cyflwynodd cronfeydd Cymru amlinelliad o gynnig ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2016. Cyflwynwyd cynigion manwl ar 15 Gorffennaf 2016. Cyhoeddwyd ffurf adolygedig o'r cynnig ar wefannau'r awdurdodau gweinyddu a'i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

O ganlyniad i'r cynnig ni fydd y Gronfa yn gyfuniad o'r wyth cronfa. Bydd pob CPLlL yn cadw ei hunaniaeth a bydd yr awdurdodau gweinyddu yn dal i fod yn gyfrifol am gydymffurfio â rheolau CPLlL a deddfwriaeth pensiwn. Bydd gan y Gronfa gylch gwaith cyfyngedig a'i amcanion, fel y nodir yn y cynnig, yw:

- Cynnig trefniadau cronni sy'n galluogi cronfeydd unigol i roi eu strategaethau buddsoddi eu hunain ar waith (pan fo hynny'n ymarferol)

- Sicrhau arbedion sylweddol i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan wrth wella neu gynnal perfformiad y buddsoddiad ar ôl ffioedd.

- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa. Gweithio'n glos gyda chronfeydd eraill er mwyn ystyried y buddion y gall yr holl randdeiliaid yng Nghymru eu sicrhau yn seiliedig ar atebion cronni ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.

Dywedwyd wrth Aelodau bod y gronfa arfaethedig yn cynnwys sefydlu Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys aelodau etholedig o bob Awdurdod Gweinyddu, a gaiff ei gynorthwyo gan Weithgor Swyddogion. Cynigir hefyd y dylid penodi gweithredwr rheoledig yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer sefydlu cyfrwng cronni a rheoli'r Gronfa ar ran yr 8 cronfa.

Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i sefydlu Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2016 gyda golwg ar sicrhau bod ganddo drosolwg strategol o'i gyfrifoldebau o ran gweinyddu'r Cronfa Bensiwn. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn galluogi Aelod etholedig i gymryd rhan yn y Cydbwyllgor Llywodraethu a bydd ei gylch gorchwyl yn cynnwys gosod amcanion strategol a chymeradwyo datganiad polisi, fel sy'n ofynnol gan reoliadau'r CPLIL.

Gofynnod Aeloda am esboniad o ran cyfansoddiad unrhyw gyfwng buddsoddi. Dywedodd Swyddogion bod nifer o opsiynau posibl yn cael eu hystyried. Mae'n debygol y caiff gwasanaethau craidd eu darparu gan endid rheoliadol ac y caiff gwasanaethau ategol eu sicrhau o fan arall. Cymeradwyodd Aelodau'r Pwyllgor ddefnyddio dull cam wrth gam o gyflawni hyn. Dywedodd Swyddogion bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi amserlen chwim a bod y dull dan fandad.

Gofynnodd y Pwyllgor p'un a oedd y penderfyniad i symud i 'uwch-strwythur Cymru-gyfan cymhleth, trosfwaol' yn cael ei sbarduno gan arbedion, lleoliad yr arbedion hynny a faint o arbedion gaiff eu sicrhau? Dywedodd y swyddog y rhagwelir y gellir sicrhau arbedion ar sail arbedion maint ac wrth i gystadlu rhwng rheolwyr cronfeydd arwain at ostwng ffioedd. Roedd cronfeydd yng Nghymru eisoes yn sicrhau arbedion yn sgil gostyngiad sylweddol o ran ffioedd ond nad oed yn bosibl meintioli'r arbedion hynny ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD:

(1) y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd mewn perthynas â datblygiad Cronfa Fuddsoddi Cymru;

(2) os bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol o ran llywodraethu Cronfa Bensiwn Cymru Gyfan eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried cyn eu rhoi ar waith.

Llywodraethu a Rheoli Risg
29 : RHEOLI RISG - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar y camau sydd ar waith i wella aeddfedrwydd risg y Cyngor yn 2016/17. Croesawyd Vivienne Pearson a Chris Pyke i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a'u gwahoddi i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedwyd wrth Aelodau ei bod yn hanfodol bod yr awdurdod yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o waith llywodraethu'r Cyngor, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cydnabod bod rheoli risg yn rhan o'u gwaith a bod prosesau busnes yn nodi lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod/amharod i'w hysgwyddo yn glir.

Cymerodd swyddogion ledled yr awdurdod ran mewn adolygiad o aeddfedrwydd risg yn ystod yr haf. Roedd yr adolygiad yn nodi nifer o nodweddion ar sail 'risg a ddiffiniwyd' a 'ymwybodol o risg'. Roedd atodiad o'r nodweddion aeddfedrwydd risg wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A. Ar hyn o bryd mae'r sylw ar sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y prosesau a systemau rheoli risg wrth weithio tuag at ddiffinio hyd a lled Risg Corfforaethol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd diffinio hyd a lled y risg yn galluogi swyddogion ac Aelodau i ddeall lefel y risg y gellir ei dderbyn wrth wneud penderfyniadau a'r meysydd hynny sydd angen rhagor o sylw. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r gwendidau ac yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth o wneud rheoli risg yn rhan annatod o wneud penderfyniadau.

Er mwyn bwrw ymlaen â dull Rheoli Risg y Cyngor mae angen gwneud y canlynol:

- Cofnodi ac adrodd ar Risgiau Corfforaethol y Cyngor ar 'Fap Risgiau'
- Dilysu'r sgoriau risg yn y Gofrestr / Map Risgiau Corfforaethol
- Nodi a diffinio Hyd a Lled Risg Corfforaethol y Cyngor.

Atodwyd Map Risgiau Corfforaethol i'r adroddiad yn Atodiad B. Roedd y map yn rhoi darlun presennol a chlir o'r gwaith cyfredol o reoli risgiau yn ystod chwarter un 2016/17. Mae ail elfen a ychwanegwyd at y map yn cysylltu'r sgôr risg a hyd a lled y risg a gynrychiolir gan hynny.

Er mwyn sicrhau lefel uchel o hyder o ran lleoliad y risgiau gweddilliol mae cyfarwyddeb waith a phecyn adnoddau wedi'u paratoi gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Risg a chaiff y rhain eu rhoi i bob Cyfarwyddwr. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnig dull systematig a threfnu o adolygu risgiau ac effeithiolrwydd y gwaith o'u hasesu a'u rheoleiddio.

Gofynnodd Aelodau i swyddogion gadarnhau yn gyffredinol fod yr holl risgiau a nodwyd wedi'i sgorio'n debygol/tebygol iawn a bod canlyniadau'r risgiau hynny wedi'u nodi'n bwysig neu sylweddol. Cadarnhaodd swyddogion mai felly yr oedd hi. Atgoffwyd Aelodau bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn y map risg yr un wybodaeth â gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol.

Gofynnodd Aelodau i swyddogion esbonio'r risg sy'n gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth. Dywedodd Swyddogion bod y risg yn gysylltiedig â defnyddio a gwarchod data ffisegol a sicrhau bod polisïau a systemau addas ar waith i reoli data.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y defnydd o'r Map Risg Corfforaethol i ddarparu 'darlun' ar ffurf diagram o'r risgiau sy'n wynebu'r awdurdod. Gofynnodd Aelodau a ellid cyflwyno'r Map Risg Corfforaethol ochr yn ochr â'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad ar Reoli Risg, y dull o lunio Map Risg Corfforaethol a diffinio Hyd a Lled Risg Corfforaethol, a defnyddio'r adroddiad i lywio eu Rhaglen Waith yn y dyfodol.

Swyddfa Archwilio Cymru

30 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Siaradodd Chris Pugh gerbron y Pwyllgor. Dywedwyd wrth aelodau bod Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn debygol o ddod i'r casgliad bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

31 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL – ADRODDIAD DIWEDDARU

Derbyniodd y Pwyllgor o adroddiad a baratowyd i roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y rhaglen o waith a gynlluniwyd i'w gynnal gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2016/17.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Rheoli'r Trysorlys

32 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

*Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

The Committee received a report providing Treasury Management performance information and position statements as at 31 August 2016. Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfalaf a Thrysorlys.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

33 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

*Roedd Atodlen B a C yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth eithredig am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y byddai'r cyhoedd yn cael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y drafodaeth ar yr eitem fusnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth eithredig am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ar Adran Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2015/16 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 29 Medi 2016, yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol
34 : ADRODDIAD CYNNYDD - DIWEDDARIAD

*Roedd Atodlen B yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y byddai'r cyhoedd yn cael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth eithriedig am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Cafodd Aelodau adroddiad a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf am waith yr adran Archwilio Mewnol tan 31 Awst 2016. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r canlynol:

- Mae'r holl adolygiadau DPP mewn perthynas a pherfformiad yn ystod 2015/16 wedi'u cwblhau. Trafodwyd amcanion newydd ar gyfer 2016/17 ac mae cynlluniau hyfforddi unigol i'w paratoi.

- Gwnaed 4 adroddiad archwilio sicrwydd cyfyngedig ers cyfarfod olaf y Pwyllgor

- O ran perfformiad archwilio, daeth rhywfaint o ddata meincnodi cymharol i law yn ystod yr haf. Mae'r data'n cael ei ddadansoddi. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016.

O ran adroddiadau dim sicrwydd, ystyriodd Aelodau y dylai'r Cyfarwyddwyr cysylltiedig fod yn gyfrifol am ymyrryd a mynd i'r afael ag adroddiadau dim sicrwydd. Cadarnhaodd swyddogion bod y Cyfarwyddwr cysylltiedig wedi ymyrryd.

PENDERFYNWYD:

(1) y dylid nodi'r adroddiad;

(2) y dylid cyflwyno adroddiad ar yr adroddiadau archwilio dim sicrwydd a fanylwyd yn Atodiad A yn y cyfarfod nesaf.

35 : ASESIAD PSIAS

Derbyniodd Aelodau adroddiad a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf am y trefniadau arfaethedig ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus. Gofynnwyd i Aelodau bod rhaid i aseswyr allanol gynnal yr asesiad hwn unwaith bob pum mlynedd. Drwy aelodaeth Grŵp Prif Archwilwyr Cymru cynigiwyd y dylid sefydlu grŵp cymheiriaid i gyflawni'r fath asesiadau. Mae'r dull hwn yn gyson â grwpiau cymheiriaid a sefydlwyd ar gyfer Dinasoedd Craidd ledled y DU. Mae'r dull yn

bodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus yn llawn ac yn sicrhau arbedion costau sylweddol. Mae Cylch Gorchwyl drafft wedi'i lunio a'i gytuno rhwng y cyfranogwyr. Cafodd y Pwyllgor gopi o'r Cylch Gorchwyl drafft yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2015.

Gyda golwg ar yr asesiad allanol, cynhaliwyd hunanasesiad yn 2016 ac mae cynllun gweithredu wedi'i lunio. Roedd y cynllun gweithredu wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A. Roedd yr hunanasesiad yn nodi cydymffurfio da yn gyffredinol, ond bod rhai bylchau rhwng y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus ac arferion Archwilio mewnol Cyngor Caerdydd.

Nid yw'r broses adolygu yn mynd bod rhaid cydymffurfio â'r holl ofynion. Fodd bynnag, disgwylir dealltwriaeth a chyfiawnhad dros unrhyw anufudd-ddod. Gwnaed 12 o argymhellion yn yr hunanasesiad, mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cyflawni.

Gan gyfeirio at Argymhelliad 8, gofynnodd Aelodau a oedd adnoddau digonol ar waith i asesu effeithiolrwydd y gwaith o reoli perfformiad ac atebolrwydd y sefydliad. Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod o'r farn bod digon o adnoddau ar waith.

PENDERFYNWYD:

(1) Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gweithgarwch a gyflawnwyd, cyn yr asesiad allanol ym mis Hydref 2016, i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus;

(2) Aelodau i ystyried y cynllun gweithredu a rhoi eu barn ar statws yr argymhellion.

## 36 : BRWYDRO YN ERBYN TWYLL AC ANONESTRWYDD YN LLEOL

PRAWF YW HWN

## 37 : LLYTHYRON CRAFFU A GYHOEDDWYD

Cafodd Aelodau wybodaeth am lythyrau a gyhoeddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu a oedd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor benderfynu p'un a ydynt am ystyried unrhyw rai o'r llythyrau ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio am 29 Tachwedd 2016.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

## 38 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

Nododd y Pwyllgor y camau sydd eto i'w cyflawni yng Nghynllun Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.

## 39 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nododd y Pwyllgor Raglen Waith 2016/17 y Pwyllgor Archwilio.

40 : MATERION BRYS

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

41 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Gofynnwyd i Aelodau nodi y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 29 Tachwedd 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified